Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Mehefin 2017

Amser: 09.30 - 12.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/4174

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Jayne Bryant AC Siân Gwenllian AC Vikki Howells AC Huw Irranca-Davies AC David Melding AC Jenny Rathbone AC Simon Thomas AC
Tystion:	Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig Graham Rees, Llywodraeth Cymru Andy Fraser, Llywodraeth Cymru Martin Bishop, Confor David Edwards, Tilhill Forestry Hamish MacLeod, BSW Timber
Staff y Pwyllgor:	Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)

	Louise Andrewartha (Dirprwy Glerc) Wendy Dodds (Ymchwilydd) Elfyn Henderson (Ymchwilydd)

1 Sesiwn breifat anffurfiol: Ymchwiliad i ddefnyddio maglau yng Nghymru – trafod yr adroddiad drafft

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, penodwyd Simon Thomas AC i fod yn Gadeirydd dros dro.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

2 Sesiwn breifat anffurfiol: Ymchwiliad i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru – sesiwn friffio ar lafar

Cafwyd gwybodaeth ar lafar am yr ymchwiliad i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Rhoddodd Huw Irranca-Davies wybod fod aelod o'i deulu wedi dechrau gweithio i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gontract dros dro.

4 Ymchwiliad i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

Gohebiaeth a anfonwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet at y Grwpiau Awdurdod Perthnasol ym mis Mai 2017.

Cofnodion cyfarfod y Grwpiau o dan y Rhaglen Newid Morol.

5 Ymchwiliad i bolisi coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru - tystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr y diwydiant

Cyflwynodd y tystion eu hunain cyn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau.

Oherwydd diffyg amser, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y tystion yn dilyn y sesiwn er mwyn holi rhagor o gwestiynau.

6 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

6.1 Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ddifa moch daear

6.2 Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru am y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig